**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 7 Mai 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Trefnydd Busnes y Ceidwadwyr
Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Busnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr/Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Daeth ymddiheuriad am absenoldeb i law oddi wrth Kirsty Williams. Croesawodd y Dirprwy Lywydd Peter Black, a oedd yn ei chynrychioli yn unol â Rheol Sefydlog 13.3. Diolchodd y Dirprwy Lywydd Kirsty Williams, yn ei habsenoldeb, am gadeirio'r cyfarfod blaenorol.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd diwethaf

### (i) BC132-02 (Terfynol) dydd Mawrth 23 Ebrill 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) BC140-02 (Drafft) dydd Mawrth 30 Ebrill 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion sy'n codi (BC119-02 dydd Mawrth 16 Ebrill 2002)

## 4. Is-ddeddfwriaeth

### (a) Gorchmynion i'w hystyried

- Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC142-02)
  *Gweithdrefn a Argymhellir: Y Weithdrefn Garlam*

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapur BC142-02, a oedd yn darparu cyngor ar sut i drin y gorchymyn hwn, a chytunodd ar y weithdrefn a argymhellwyd. **Gan hynny, dyfarnodd y Llywydd na fyddai'n rhaid cyfeirio'r Gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol**

BC143-02

4.2 Nododd y Pwyllgor yr e-bost oddi wrth y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad at yr Aelodau ynghylch defnyddio'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) (Cymru) 2002.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

## 6. Pwyllgorau

BC144-02

6.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gais y Pwyllgor Datblygu Economaidd am gyfarfod ychwanegol.

## 7. Busnes arfaethedig

(i) Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC145-02, a oedd yn rhoi manylion busnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai Marsial Silesia yn annerch Aelodau'r Cynulliad ddydd Iau cyn y ddadl fer. Dywedodd y byddai cynnig i ohirio'r Cyfarfod Llawn o dan Reol Sefydlog 34.4 yn cael ei gynnig ar ddechrau'r cyfarfod, ac y byddai'r cyfarfod yn ailddechrau ar ôl anerchiad y Marsial.

7.3 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad nad oedd unrhyw newidiadau eraill wedi'u cynnig.

(ii) Y Datganiad Busnes Drafft

7.4 Nododd y Pwyllgor y datganiad yr oedd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a threfnydd y Cynulliad yn ei gynnig ynghylch trefnu busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau dydd Mawrth 14 Mai, dydd Mawrth 21 Mai, a dydd Mawrth 28 Mai.

7.5 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad nad oedd unrhyw newidiadau eraill i'r busnes a amlinellwyd yn y Datganiad Busnes Drafft.

7.6 Gofynnodd Jocelyn Davies a oedd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad wedi ymgynghori â'i gyd-Weinidogion ynghylch y cais am ddatganiad ar ddigwyddiadau diweddar yn y Dwyrain Canol. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod y cais wedi'i ystyried gan y llywodraeth, ond na fyddai datganiad yn cael ei wneud oherwydd nad oedd unrhyw oblygiadau uniongyrchol i Gymru, a bod y mater y tu allan i gyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol.

7.7 Dywedodd Jocelyn Davies fod Janet Ryder wedi gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Ebrill drefnu dadl ar y Papur Gwyn ar ad-drefnu'r heddlu. Gofynnodd a oedd penderfyniad wedi'i wneud ar y mater. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod y cais yn cael ei ystyried gan y llywodraeth.

7.8 Cyfeiriodd Jocelyn Davies at y ddadl ar ddydd Iau 2 Mai ynghylch is-ddeddfwriaeth arfaethedig a gynigiwyd gan Gareth Jones o dan Reol Sefydlog 29. Yng ngoleuni'r ffaith bod Aelodau'r Cynulliad wedi beirniadu'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig am fod yn "rhy gyfyng", dywedodd fod y weithdrefn bresennol yn rhy anhyblyg i'r Aelodau gyflawni eu hamcanion. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog er mwyn adlewyrchu argymhellion yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad i gynyddu cwmpas gweithdrefn Rheol Sefydlog 29, yn dod gerbron y Pwyllgor Busnes cyn toriad yr haf.

**8. <u>Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn</u>**

8.1 Cyfeiriodd Jocelyn Davies at baragraff 8.1 yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 23 Ebrill (BC132-02), lle'r oedd y Pwyllgor dwedi trafod dyfarniad gan y Llywydd ar hyd datganiadau. Yn bendodol, cyfeiriodd at hyd y Datganiad ar Ynni. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'n atgoffa Gweinidogion o ddyfarniad y Llywydd.

**9. <u>Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog</u>**

**<u>10. Dyfarniadau'r Llywydd</u>**

**<u>11. Unrhyw fater arall</u>**

11.1 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes bellach wedi penderfynu y byddai'r Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2002 (BC135-02) yn dilyn y weithdrefn safonol. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno yn y cyfarfod ar 30 Ebrill y byddai'r Gorchymyn yn dilyn y Weithdrefn Garlam, ond roedd aelodau o'r Pwyllgor wedyn wedi gwneud cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**